

**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanedi a gynhaliwyd
ar nos Fercher, Mehefin 7^{fed} 2017 yn Ystafell Ddarllen yr Hendy.**

Cofnod rhif 1 – Aelodau'n Bresennol

Cynghorwyr:
Mike Nicholas
Buddug Thomas
Tina Higgins
J Lyn Griffiths
Ian Davies
Sharon Lyle
Stuart Evans
Alan Evans
Byron Evans
Gareth B Thomas
Bob Roberts
Alan Blackley
Cellan Davies

Y Cadeirydd, y Cynghorydd M Nicholas, oedd yn llywyddu ar y cyfarfod

Cofnod rhif 2 - Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr B D Davies ac C Higgins.

Cofnod rhif 3 – Datganiadau o Fuddiant

Roedd y Cynghorydd Cellan Davies am ddatgan buddiant yn ail-ddatblygiad y Clwb Criced, Eitem Agenda rhif 4.

Cofnod rhif 4 – Clwb Criced

Roedd Mr Josh Jones a Mr Rhydian Davies yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor i ddatgan eu diddordeb yn ail-ddatblygu'r Clwb Criced fel campfa. Nodwyd bod y Cyngor yn bwriadu ail-ddatblygu'r clwb fel canolfan gymunedol, ac felly efallai ni fydd yr adeilad ar gael i'w ddefnyddio fel campfa ond am gyfnod byr. Cytunwyd y bydd cais ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor gyda hyn er ystyriaeth.

Cofnod rhif 5 – Virgin Media

Derbyniodd y Cyngor ymweliad gan gynrychiolwyr Virgin Media a oedd am gynnig trosolwg o'r cynlluniau arfaethedig i ddarparu cysylltiadau ffeibr yng nghymuned yr Hendy. Mae'r cwmni yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhaglen drwy ymgynghori yn lleol, a bydd cyfle i nodi rhai digwyddiadau. Roedd Aelodau'r Cyngor am ddatgan eu pryder am yr amhariad posibl a allai

gael ei achosi, yn enwedig ar y ffordd fawr drwy'r Hendy. Nodwyd taw'r bwriad yw dechrau'r gwaith yma mewn tua pythefnos o amser.

Cofnod rhif 6 – Bywgraffiadau'r Cynghorwyr

Dosbarthodd y Clerc ffurflenni bywgraffiad i'w llenwi gan y Cynghorwyr, fel bod modd cynnwys yr wybodaeth ar wefan y Cyngor.

Cofnod rhif 7 – Enwebiadau i wasanaethu ar Bwyllgorau'r Cyngor

Enwebwyd y Cynghorwyr canlynol yn aelodau o'r pwyllgorau isod:

Pwyllgor Cyllid

Cynghorwyr M Nicholas, B Evans, A Evans, G Thomas, Ms S Lyle.

Pwyllgor Archwilio / Rheoli Risg

Cynghorwyr G Thomas, Mrs T Higgins, C Higgins, R C Roberts.

Pwyllgor Personél

Cynghorwyr A Blackley, B Evans, Mrs T Higgins, RC Roberts, Mrs B Thomas, C Higgins, S Evans a B D Davies.

Pwyllgor Apeliadau

Cynghorwyr A Evans, G Thomas, L Griffiths, M Nicholas, I Davies, S Lyle, NAC Davies, M Davies.

Llywodraethwyr Ysgol

Ysgol Gynradd Llanedi - Cynghorydd RC Roberts

Ysgol Gynradd yr Hendy - Cynghorydd A Evans

Ysgol Gynradd Tycroes - Cynghorydd C Higgins.

Cofnod rhif 8 – Pennu dyddiadau, amserau a lleoliad cyfarfodydd cyffredin y Cyngor llawn a'r is-bwyllgorau am y flwyddyn nesaf

Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd y Cyngor ar ddydd Mercher cyntaf y mis, ag eithrio mis Awst.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ar drydydd ddydd Iau y mis ddwywaith y flwyddyn.

Penderfynwyd cynnal cyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar drydydd ddydd Iau y mis ddwywaith y flwyddyn.

Cofnod rhif 9 – Pwyllgor newydd

Penderfynwyd y byddai'r Pwyllgorau Ward yn cymryd cyfrifoldeb am reoli'r parciau. Roedd yr Aelodau wedi datgan eu dymuniad i gynnal cyfarfodydd ward rheolaidd, o bosib ar y diwrnod cyn y cyfarfod.

Cofnod rhif 10 – Cyrff Allanol

Penderfynwyd taw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd fydd yn cynrychioli'r Cyngor ar Un Llais Cymru.

Cofnod rhif 11 – Cyfethol Cynghorydd ar gyfer ward Tycroes

Penderfynwyd cyfethol Mr Malcolm Davies fel Cynghorydd ar gyfer Ward Tycroes.

Cofnod rhif 12 – Eitem Agenda 26

Penderfynwyd dwyn yr eitem hon ymlaen ar yr Agenda.

Cofnod rhif 13 – Clwb Rygbi Tycroes

Roedd y Cynghorwyr I Davies a C Davies wedi datgan diddordeb yn yr eitem yma, ac nid oeddent wedi cymryd unrhyw ran yn y drafodaeth.

Adroddodd y Clerc bod cais wedi'i dderbyn i drafod y mater hwn ar frys, gan fod rhaid i'r Clwb dalu amrywiol gontractwyr. Nodwyd nad oedd y Cyngor wedi derbyn dyfynbrisiau cystadleuol ar gyfer yr holl waith, a bod peth o'r gwaith wedi'i gwblhau cyn bod y grant wedi ei gymeradwyo.

Penderfynwyd bwrw ymlaen i ganiatáu grant o £10,000 tuag at gost y gwaith brys yng Nghlwb Rygbi Tycroes.

Cofnod rhif 14 – Llofnodi'r Cofnodion – Ebrill 5^{ed} 2017 - Cyfarfod y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddisbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 15 – Llofnodi'r Cofnodion – Ebrill 13^{eg} 2017 – Cyfarfod y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddisbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 16 – Llofnodi'r Cofnodion – Mai 18^{fed} 2017 - Cyfarfod y Cyngor.

Penderfynwyd derbyn cofnodion y cyfarfod uchod, a ddsbarthwyd yn flaenorol, fel y'u darllenwyd, eu cadarnhau a'u llofnodi fel cofnod cywir a chyfreithlon o'r materion a drafodwyd.

Rheswm—cadw at ofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972, at12, para 41 (1) a (4) ac adran 99.

Cofnod rhif 17 – Gwobr Terry Price

Nodwyd bod llun o gyflwyniad Gwobr Terry Price wedi ymddangos ym mhapur newydd y Llanelli Star.

Cofnod rhif 18 – Eglwys y Santes Edith

Roedd y Cynghorydd RC Roberts wedi holi ynghlyn â'r grant a gymeradwywyd ar gyfer y mudiad uchod. Nodwyd i'r Cyngor gytuno bod yr Eglwys yn gwneud ymholiadau i ffynhonellau grant eraill sydd o bosib ar gael oherwydd maint y gwaith. Roedd y Clerc wedi cytuno i siarad â'r ymgeisydd unwaith eto, er mwyn egluro'r mater hwn.

Cofnod rhif 19 – Parc yr Hendy – Diogelwch

Cynigiodd y Cynghorydd A Blackley y dylid uwchraddio'r mesurau diogelwch ar gyfer y lle chwarae newydd gan ei fod wedi derbyn buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar, a byddai'n drueni pe byddai'r offer yn cael ei fandaleiddio. Ar ôl trafodaeth gynhwysfawr ar y pwnc, **penderfynwyd** mynd ati i dderbyn dyfynbris am gyflenwi offer ychwanegol i'r system teledu cylch cyfyng.

Penderfynwyd bwrw ymlaen i brynu 3 bin sbwriel ychwanegol, am bris i'w gytuno rhwng y Cadeirydd a'r Clerc. Dywedodd y Clerc bod y Cyngor Sir yn dal i waghau'r biniau sbwriel yn yr holl lefydd chwarae.

Penderfynwyd gohirio'r holl faterion eraill ar yr eitem agenda hwn i'w hystyried yng nghyfarfod Ward yr Hendy.

Cofnod rhif 20 – Tycroes – Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd

Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn rhaglen oddiwrth *Sunshine Playgrounds* ar gyfer y gwaith yn Ardal Chwaraeon Aml-ddefnydd Tycroes. Nodwyd hyn.

Cofnod rhif 21 – Parc yr Hendy

Mynegodd y Cynghorydd A Evans bryder ynghlyn â chyflwr y parc wrth iddo gael ei drosglwyddo. Yn benodol, y brif broblem yw'r ffaith bod yna ardaloedd anwastad lle nad yw'r arwyneb diogelwch wedi setlo'n iawn, ac ardaloedd o bridd moel sydd wedi eu hadu. Gofynwyd i'r Syrffewr sicrhau bod rhestr o'r

diffygion yn cael ei pharatoi ar gyfer y contractwr, a'i fod yn dilyn y materion hyn lan gyda'r contractwr yn ddi-oed.

Cofnod rhif 22 – Adroddiadau Ariannol

Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar Incwm a Gwariant am y cyfnod o dan sylw. **Penderfynwyd** nodi'r adroddiadau hyn.

Cofnod rhif 23 – Cyfrifon y Cyngor 2016/17

Derbyniodd y Cyngor gopi o'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2016 2017; roedd rhain wedi'u dosbarthu cyn hyn. Cymeradwy-wyd y cyfrifon yn amodol ar dderbyn adroddiad yr Archwiliwr Mewnol.

Cynigiodd y Cyngor pleidlais o ddiolch i'r Cynghorydd A Blackley am ei waith o sicrhau nifer sylweddol o archebion ar gyfer yr Ardal Chwaraeon Aml-dddefnydd yn ystod y flwyddyn flaenorol; roedd y nifer y sylweddol uwch na'r swm a gyllidwyd ar ei gyfer yn wreiddiol.

Ymhellach, **penderfynwyd** cau cyfrif yr Ardal Chwaraeon Aml-dddefnydd, ac i drosglwyddo unrhyw falans i brif gyfrif y Cyngor.

Cofnod rhif 24 – Cymorth Ariannol

Roedd y Cyngor wedi derbyn dau gais am gymorth ariannol. Nododd yr Aelodau bod y Cyngor wedi mabwysiadu polisi ynglyn â chymorth ariannol, a bod ceisiadau yn cael eu hystyried unwaith yn unig yn ystod y flwyddyn ariannol. Nodwyd y bydd amgylchiadau brys yn codi o bryd i'w gilydd, a dylid ystyried achosion da ar ôl y dyddiad penodedig.

Penderfynodd y Cyngor gynnig rhodd i'r person canlynol, yn unol â'i bolisi newydd ar gyfer cynnig rhoddion, ac yn unol â phwerau'r Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Ym marn y Cyngor, bydd y fath roddion o fudd i'r ardal neu ei thrigolion ac yn cynnig mantais iddynt mewn ffordd sy'n gymesur â'r gwariant:

Rhys Harries

£100

Cofnod rhif 25 – Datrysiaid Lleol Enghreifftiol

Penderfynwyd gohirio'r eitem hwn tan y cyfarfod nesaf.

Cofnod rhif 26 – Cyfryngau Cymdeithasol

Roedd y Cyngor wedi ystyried copi drafft o Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol a ddosbarthwyd cyn hynny. **Penderfynwyd** cymeradwyo a mabwysiadu'r polisi, yn ddarostyngedig i'r gwelliant o adran 3.3 i ddarllen, "y Clerc a'r Cadeirydd".

Cofnod rhif 27 – Trosglwyddo Asedau - Trwydded

Roedd y Cyngor wedi derbyn copi o gytundeb trwydded i gymryd meddiant o Barc Tycroes a Rhodfa'r Wiwer yn yr Hendy. Penderfynwyd cymeradwyo bod y Cadeirydd a'r Clerc yn cael yr hawl i arwyddo'r drwydded ar ran y Cyngor.

Cofnod rhif 28 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref

Cafwyd adroddiad diweddar gan y Cynghorydd G Thomas ar y ceisiadau cynllunio diweddar a gyflwynwyd o fewn y Cyngor ac yng nghymunedau cyfagos parthed â safleoedd i deithwyr.

a) Datblygiadau Arfaethedig

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol yn y cofnodion:

Rheswm: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio'r Sir.

- S/35553 Trawsnewid ac ehangu ysgubor i ffurfio rhandy ar gyfer aelodau teulu o dai annedd cyfagos yn Llwyn y Rhos, Heol Coopers, Rhydaman. A ac E Davies.
- S/35506 Codi estyniad un llawr i gefnlun y byngalo yn 67 Heol Tycroes, Rhydaman. Mrs Angela Anthony.
- S/35507 Dymchwel y sied wartheg bresennol ac adeiladu sied ffrâm ddu, gyda tho a waliau wedi'u ffurfio o haenau dur yn FfermTirbach, Llannon, Llanelli. Ricky Bessent.
- S/35402 Byngalo arfaethedig ar lain 1: mynediad i gerbydau, golwg gweledol, tirweddu, cynllun a graddfa (materion a gedwir yn ôl i'r cais amlinellol S/33599 – adeiladu dau fyngalo) ar dir yn llain 1 ger rhif 34 Heol Penygarn, Rhydaman. Mr Malcolm Davies.

(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd

Penderfynwyd cofnodi'r ceisiadau canlynol.

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law.

(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd

Ni ddaeth unrhyw rai i law

Cofnod rhif 29 – Hyfforddiant i Gynghorwyr

Penderfynwyd bod y cynghorwyr canlynol yn mynychu'r sesiynau hyfforddiant isod:

Mehefin 29^{ain} 2017

Y Cynghorwyr S Lyle, A Blackley, T Higgins, C Davies, S Evans.

Hyfforddiant Sefydlu Cynghorwyr – Gorffennaf 20^{fed}

Y Cynghorwyr S Lyle, I Davies, C Davies, B Roberts ac M Nicholas.

Cofnod rhif 30 – Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir

Roedd y Cynghorydd T Higgins wedi darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer yr Aelodau yn rhestru'r materion sy'n berthnasol i ward Tycroes.

Cofnod rhif 31 – Atal Rheolau Sefydlog

Penderfynwyd atal rheolau sefydlog er mwyn parhau i drafod busnes yn y cyfarfod ar ôl 9yh.

Cofnod rhif 32 – Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir - parhad

Roedd y Cynghorydd G Thomas wedi adrodd yn ôl ar y materion canlynol:

- Mae'r broblem goryrru ar hyd Bronallt wedi cael ei archwilio. Roedd mesur cyflymdra'r cerbydau wedi profi nad oes yna broblem goryrru ond, mewn gwirionedd, bod y cerbydau yn teithio ar gyfartaledd o 30 mya.
- Mae angen ystyried y cais Llwybrau Diogel mewn Cymunedau gan fod gwahoddiad am geisiadau unwaith yn ragor. Roedd y Clerc am atgoffa'r Aelodau bod yr adborth o'r cais blaenorol wedi amlygu na fu digon o ymgynghori yn y gymuned parthed â'r cynnig, ac ni dderbyniwyd digon o llythyrau o gefnogaeth am y cynnig. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Thomas yn trefnu cyfarfod safle gyda'r Swyddog Priffyrdd priodol i ystyried y cynnig ymhellach.

Cofnod rhif 33 – Clwb Rygbi yr Hendy

Roedd y Cyngor wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Glwb Rygbi yr Hendy yn datgan bod y clwb ar fin newid ei statws cyfredol i statws cwmni preifat. Bydd y newid hwn yn golygu bod rhaid aseinio'r is-brydles sydd ym meddiant y clwb ar gyfer y Cae Rygbi i'r cwmni preifat hwnnw. **Penderfynwyd** rhoi caniatâd i aseinio'r is-brydles ar gyfer y Cae Rygbi.

Cofnod rhif 34 – Clwb Pêl-droed yr Hendy

Gofynnodd y Cyngorydd A Blackley bod y Cyngor yn caniatáu peth hyblygrwydd yn y ffordd y mae'r grant, a gadarnhawyd gan y Cyngor i'r clwb pêl-droed, yn cael ei wario. Os byddai'r clwb yn llwyddo i wneud arbedion ar rai o'r eitemau a restrwyd yn y cais gwreiddiol, a fyddai'n bosibl ail-ddosbarthu'r arian yma i benawdau eraill, yn enwedig i'r grant hyfforddi.

Cofnod rhif 35 – Sesiwn Ddatblygu - y Ddeddf Llesiant

Riportiodd y Clerc ei fod yn ddiweddar wedi mynychu cyfarfod y Cyngor Sir i drafod gweithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd bod y Cyngor Sir yn bwriadu trefnu sesiwn hyfforddi ar gyfer y 7 cyngor cymuned y bydd y Ddeddf yn effeithio arny'n nhw, er mwyn trafod yr amcanion a'r blaenoriaethau y mae'r Cyngor Sir wedi'u pennu. Roedd pob un Cyngorydd wedi datgan diddordeb yn mynychu'r sesiwn.

Cofnod rhif 36 – Gohebiaeth Gyffredinol

Penderfynwyd nodi'r ohebiaeth ganlynol i'r cofnodion:

Awdur	Pwnc
Un Llais Cymru	Protocol Datrysiaid Lleol Enghreifftiol ar gyfer Cynghorau Cymuned
Cyngor Sir Caerfyrddin	Cynllun Pobl da eu Dwylo a Garddwyr Cofrestredig
Glo man	Cais am gymorth ariannol
Un Llais Cymru	Amserlen hyfforddiant
Cyngor Sir Caerfyrddin	Enwebu cynrychiolydd o'r Cynghorau Cymuned i wasanaethu fel aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Caerfyrddin
Rhisian Thomas	Cerdyn 'Diolch'
Gweinidogion Llafur y Cynulliad	Taflen
Swyddfa Archwilio Cymru	Ffioedd archwiliad 2015-16
Draintech	Dyfnbris
Seafarers UK	Codi'r Lluman Coch
Mike Rosthorn	Adroddiad Terfynol – hawlio yswiriant

Daeth busnes y Cyngor i ben am 9.40 yh.

**Llofnod Dyddiad
Cadeirydd**